

Llys Tywysog Cymru Albert Edward

Rhodfa Penylan
Porthcawl
Morgannwg Ganol
CF36 3LY

Ffôn: 01656 785311
Ffacs: 01656 786078
E-bost: albertedward@rmbi.org.uk
Gwefan: www.rmbi.org.uk

Ein Hymrwymiad i Chi

Yn yr RMBI, rydym yn gofalu am Seiri Rhyddion hŷn a'u teuluoedd yn ogystal â rhai pobl yn y gymuned. Mae gofalu wedi bod yn ffordd o fyw i ni ers 1842 ac rydym yn darparu cartref i dros 1,000 o bobl ledled Cymru a Lloegr - ac yn cefnogi llawer iawn mwy. P'un ai bod angen gofal preswyl neu ofal nyrsio, cymorth dementia arbenigol neu wasanaethau dydd ar bobl, rydym yn gofalu amdanynt yn broffesiynol ac yn garedig.

Mae cartrefi gofal RMBI ar gael i bobl dros 65 oed.

Mae'r RMBI wedi ymrwymo i sicrhau bod hawl yr unigolyn i urddas, parch, dewis a rheolaeth dros eu bywyd yn cael ei gynnal a'i gadw, ac mae'n gwneud ei orau glas i gyflawni'r amcanion hyn:

- Caiff pob preswlydd ei drin mewn ffordd sy'n parchu ei breifatrwydd a'i urddas personol.
- Bydd gan bob preswlydd gynllun gofal wedi'i deilwra'n bersonol, sy'n cynnwys asesiad llawn o'i anghenion corfforol, ffisiolegol, cymdeithasol ac emosiynol. Caiff cynllun gofal unigol ei lunio a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio mewn ymateb i anghenion a dymuniadau newidiol. Byddwn yn ymgynghori â'r preswylwyr wrth lunio a gweithredu eu cynllun gofal.
- Bydd gan bob preswlydd weithiwr allweddol/aelod penodedig o staff. Bydd y preswylwyr yn dod i nabod y gweithiwr hwn yn dda ac ef/hi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r preswlydd yn cael eu diwallu. Bydd preswylwyr yn cael dewis rhyw y gweithiwr sy'n darparu gofal personol iddynt, fel y bo'n briodol.

- Bydd pob preswlydd yn cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden sy'n apelio atynt, sy'n eu hysgogi ac yn eu cymell, yn ogystal â chael cyfle i fwynhau'r amgylchedd mewnol ac allanol. Caiff gweithgareddau eu cynllunio i fod yn ddiwylliannol sensitif ac yn addas i'r tymor.
- Rhoddir sicrwydd i bob preswlydd y byddwn yn trin unrhyw wybodaeth amdanyn nhw neu eu triniaeth yn hollol gyfrinachol.
- Rhoddir sicrwydd i breswylwyr bod staff RMBI wedi'i dethol yn ofalus ac wedi cael eu hyfforddi i arfer eu dyletswyddau i'r safon uchaf bosib a'u bod hefyd yn cael eu goruchwyllo wrth gyflawni eu gwaith.
- Rhoddir sicrwydd i breswylwyr bod eu diogelwch yn allweddol bwysig i staff RMBI. Caiff materion ariannol

preswylwyr eu trin yn gywir ac yn gyfrinachol.

- Caiff preswylwyr eu hannog i roi eu barn am unrhyw wasanaeth a gaiff ei ddarparu gan RMBI a bydd y staff rheoli yn ymateb yn frwd i'w mewnbyn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i breswylwyr a'u perthnasau yn y Cartref sy'n gyfle i gael trafodaethau agored.
- Os bydd preswylwyr yn dymuno cwyno am fethiant yn y gwasanaeth, cânt eu sicrhau y bydd eu cwyn yn cael ei archwilio'n llawn ac yn brydlon gan y tîm rheoli.
- Bydd pob preswlydd yn cael ei gynorthwyo'n frwd i arfer ei hawliau fel dinesydd ac i gyfrannu at y gymdeithas fel y dymuna. Bydd preswylwyr hefyd yn cael eu cefnogi i arfer eu hawliau o ran gwasanaethau gofal sylfaenol fel y bo'n briodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau

Adeiladwyd Llys Tywysog Cymru Albert Edward yn 1973 fel cartref gofal a chafodd ei adnewyddu yn 2000. Saif yr adeilad mewn gerddi eang, wedi'u cynnal a'u cadw'n ofalus, gwta filltir o ganol tref Porthcawl a'r Promenâd.

Gall y Cartref roi lle i 76 o bobl i gyd, yn cynnwys hyd at 43 cleient preswyl, hyd at 20 cleient nyrsio, a hyd at 13 cleient dementia mewn ystafelloedd byw gyda gwely sengl a'r cyfan gyda thoiled a sinc en-suite. Mae golygfeydd braf o bob ystafell wely dros y gerddi neu'r clos mewnol ysblennydd.

Rhennir y cartref yn chwe grŵp o dai, gyda thîm o staff gofal yn gyfrifol am bob un ohonynt. Mae ystafell fwyta braf a lolfa gymunedol ym mhob grŵp o dai.

Ceir cyfleusterau bath/cawod wedi'u haddasu'n arbennig ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel fel bod preswylwyr yn gallu cynnal eu hannibyniaeth. Mae teclynnau codi ar gadair a sling hefyd ar gael.

Rhoddir allwedd i breswylwyr ar gyfer eu hystafell ac maent yn rhydd i fynd â dod o'u llety fel y dymunant.

Gall preswylwyr wahodd teulu a ffrindiau i ddod i'r Cartref a gallant siarad ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd os ydynt yn dewis. Mae croeso i westeion gael bwyd yn y Cartref am dâl fechan. Os bydd y preswylwyr eisiau allwedd i'w hystafell, gallant siarad â Rheolwr y Cartref, a fydd yn gallu sicrhau bod un ar gael.

Gall staff domestig hyfforddedig y Cartref olchi, sychu, cynhesu a smwddio dillad gwely, tyweli a dillad personol y preswylwyr (os ydynt yn dymuno hynny) yng ngolchdy'r Cartref. Gall staff y swyddfa hefyd drefnu gwasanaeth sychlanhau ar gyfer eitemau délicét.

Mae Llŷs Tywysog Cymru Albert Edward yn cynnig ystod eang o gyfleusterau hamdden, yn cynnwys llyfrgell gynhwysfawr. Mae digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau eraill yn elfen bwysig o'r gofal yn y Cartref. Caiff preswylwyr eu hannog i fod mor fywiog ag y gallant am gyn hired ag y gallant.

Darperir rhaglen lawn o weithgareddau gan y Cartref yn cynnwys cyngherddau, cwisiau, teithiau siopa ac ymweliadau i lefydd diddorol.

Mae salon trin gwallt yn y Cartref a gall preswylwyr gael trin eu gwallt a chael eu pampro gan ein torrwr gwallt proffesiynol.

Rydym yn annog pob preswlydd i gofrestru gyda Meddyg Teulu. Mae gan y Cartref gysylltiadau agos â'r feddygfa leol a chynhelir cymorthfeydd yn y Cartref. Gellir hefyd trefnu bod ceiro-podyddion, ffisiotherapyddion, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn dod i'r Cartref.

Cynhelir cyfarfodydd addoli crefyddol yn rheolaidd yn y Cartref; ond mae croeso i breswylwyr fynd i eglwys o'u dewis yn y gymuned leol.

Tŷ Iwerddon

Agorwyd Tŷ Iwerddon, yr Uned Cefnogi Dementia, ym mis Awst 2010 i ofalu am y rheini sydd wedi colli eu cof yn ddifrifol neu bobl â dementia. Mae deg ystafell sengl gydag ystafelloedd gwlyb en-suite, lolfa, ystafell fwyta a chegin.

Yn ôl 'Lle i'w Alw'n Gartref' (Tach 2014), bydd angen cynyddol ledled Cymru am lefydd o ansawdd ar gyfer pobl hŷn sydd â Dementia sydd angen gofal Preswyl. Yn unol â chynllun strategol AGGCC, ac fel ymateb i angen cynyddol, rydym wedi cynyddu ein lleoliadau ar gyfer dementia i 13 ac wedi ymestyn ein hardaloedd cyfeillgar i ddementia yn y Cartref.

I gefnogi'r fenter hon, mae gwell hyfforddiant i'r holl staff perthnasol, adnoddau staffio priodol a datblygu

amgylchedd ystyrllon wedi cael eu gweithredu.

Ffioedd y Cartref

Bydd pob un sy'n gwneud cais yn cael ei asesu'n unigol ac yn cael gwybod beth fydd y ffi wythnosol yn ysgrifenedig cyn symud i'r Cartref.

Dylech siarad â Rheolwr y Cartref ynghylch eich ffioedd gofal unigol, a fydd yn seiliedig ar asesiad llawn o'ch anghenion.

Mae'r ffi wythnosol yn cynnwys darparu llety, prydau bwyd a gofal; gall y ffioedd newid wrth i'r anghenion gofal newid. Os bydd rhaid newid cyfradd y ffioedd, cynhelir trafodaethau priodol a rhoddir rhybudd digonol i'r rheini sy'n talu ffioedd y preswlydd.

Mae strwythur ffioedd a gweithdrefnau codi tâl RMBI Care Co. yn seiliedig ar Bolisi Ariannol y Llywodraeth Ganolog a'r Ddeddf Gofal yn y Gymuned. Mae hefyd yn ystyried cylch gwaith yr Elusen i gynorthwyo pobl llai cefnog sydd â chysylltiad Masonaidd yn ogystal â defnyddio arian rhoddwyr yn ddoeth. Mae hi ond yn deg bod y rheini sy'n gallu fforddio talu ffi realistig yn gwneud hynny.

Nid yw'r ffioedd yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol fel ffisiotherapi, trin traed, papurau newydd na thrin gwallt.

Darparwr Cofrestredig

Yr RMBI yw darparwr cofrestredig Llys Tywysog Cymru Albert Edward. Mr Kevin Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Care Operations, yw'r prif gyswllt yn yr RMBI a gallwch gysylltu ag ef drwy anfon llythyr i: RMBI, 60 Great Queen Street, Llundain, WC2B 5AZ. Serch hynny, cysylltwch â Rheolwr y Cartref yn y lle cyntaf.

Rheolwr Cofrestredig

Alison Aberdeen yw Rheolwr y Cartref yn Llys Tywysog Cymru Albert Edward.

Rheolwr y Cartref sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb beunyddiol dros redeg y

Cartref a hi sy'n gyfrifol am les y preswylwyr. Mae Rheolwr y Cartref wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Staff yn y Cartref

Ceir Tîm Rheoli strwythuredig gyda phrofiad perthnasol o ran darparu gofal i bobl hŷn a gofal yn y gymuned. Yn ogystal â Rheolwr y Cartref, mae'r Dirprwy Reolwr, y Gweinyddwr Busnes, y Cynorthwydd Gweinyddol, y Cydlynnydd Gweithgareddau a'r staff Domestig, Arlwyo a Chynnal a Chadw yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth proffesiynol yn ogystal ag arfer eu sgiliau yn hyblyg.

Nyrsys Cyffredinol Cofrestredig, gyda chymorth tîm o Nyrsys Cronfa, sy'n gyfrifol am ofal dydd a nos y cleientiaid gofal nyrsio. Mae'r holl nyrsys yn y Cartref yn gloywi eu gwybodaeth a'u profiad nyrsio drwy fynychu hyfforddiant ac astudiaethau parhaus.

Mae gan y Gofalwyr gymwysterau perthnasol a chânt eu hannog i gyflawni NVQ Lefel 2 a 3 mewn Gofal.

Mae'r cogyddion yn y Cartref yn gweithio'n galed i fodloni anghenion arlwyo'r preswylwyr. Rydym yn cylchdroi'r bwydlenni ac yn croesawu sylwadau am y bwyd. Os oes gennych chi unrhyw anghenion deiet arbennig, bydd y staff arlwyo'n fwy na pharod i ddiwallu eich gofynion.

Mae'r staff domestig yn cael hyfforddiant mewnol 'trin â llaw' a 'COSHH' (Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd). Mae staff y golchdy'n cynnig gwasanaeth llawn, gan ddychwelyd y rhan fwyaf o eitemau yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol. Caiff y dillad gwely ei newid yn wythnosol neu'n fwy aml yn ôl y gofyn.

Iechyd a Diogelwch

Mae system alw mewn argyfwng ar waith yn y Cartref. Ceir pwyntiau galw yn holl ystafelloedd gwely a byw y preswylwyr, yn y toiledau, yr ystafelloedd ymolchi a'r lolfeydd. Ni fyddwch chi byth yn bell o bwynt galw ac maent wedi cael eu marcio'n glir.

Mae polisiâu a gweithdrefnau ar waith o ran anghenion preswylwyr a staff. Cynhelir ymarferion tân (ar adegau

gwahanol) ar gyfer preswylwyr a staff ac rydym wedi gosod offer modern ar gyfer canfod/rhybuddio am dân. Mae'r staff yn gloywi eu hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn delio ag argyfwng o'r fath.

Cynhelir profion diogelwch ar bob eitem drydanol sy'n dod i mewn i'r Cartref pan fydd preswylwyr yn symud i mewn ac wedyn cynhelir profion arnynt yn rheolaidd.

Cynhelir cyfarfodydd y pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o bob adran o'r staff a phreswylwyr.

Mae copïau o'r Polisi Iechyd a Diogelwch ar gael ar gais.

Gwneud Cais i'r Cartref

Mae'r RMBI yn darparu gofal i Seiri Rhyddion a'u dibynyddion. Mae sawl categori gwahanol o gymhwysedd a rhaid i chi fodloni meini prawf un categori er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau'r RMBI.

Darllenwch bolisi Pwy sy'n Gymwys yr RMBI am ragor o fanylion.

Gallwch gysylltu â'r Cartref yn y lle cyntaf dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen gais a darparu gwybodaeth am eich cymhwysedd o safbwynt Masonaidd. Wrth gwrs, byddwn yn fwy na pharod i'ch cynorthwyo drwy'r broses gais.

Gallwn dderbyn pobl mewn argyfwng dan amodau eithriadol. Trafodwch eich gofynion gyda Rheolwr y Cartref.

Mae croeso i chi ddod i weld y Cartref a chymryd eich amser yn crwydro o amgylch yr adeilad a gweld y cyfleusterau. Pan fyddwch chi'n ymweld â'r Cartref, mae croeso i chi siarad â phreswylwyr a holi cwestiynau.

Bydd aelodau staff hefyd yn fwy na pharod i ddarparu gwybodaeth neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Barn Preswylwyr am y Cartref

Caiff preswylwyr eu hannog i leisio barn ar y ffordd y caiff y Cartref ei redeg. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd (a bydd unrhyw gwynion yn cael sylw ar unwaith). Ein nod yw bod Llys Tywysog Cymru Albert Edward yn lle braf i fyw. Dyma rai sylwadau gan breswylwyr y Cartref.

"Rydw i'n falch ac yn ddiolchgar fy mod yn byw yn Llys Tywysog Cymru Albert Edward. Mae'r awyrgylch yn ffres ac yn lân bob amser. Mae'n heddychlon a thawel yma - yn lle braf i dreulio gweddill fy nyddiau."

"Mae'n gartref moethus - yn lân iawn gyda gerddi eang, llain fowlio, tîm rheoli brwd a staff gofal sylwgar iawn. Hafan ddiogel a chysgodol rhag prysurdeb bywyd modern."

Cynhelir Arolwg Ansawdd blynyddol yn y Cartref a gaiff ei lenwi gan breswylwyr a pherthnasau. Mae canlyniadau'r Arolwg

hwn yn helpu'r RMBI i wella a datblygu ei wasanaethau i breswylwyr.

Cwynion

Mae'r RMBI yn annog ac yn cynnal diwylliant agored sy'n sicrhau bod pob sylw neu gŵyn gan bobl sy'n byw mewn Cartrefi RMBI am unrhyw agwedd o'u bywyd yn y Cartref yn cael sylw ac yn ennyn ymateb.

Os bydd rhywun yn gwneud cwyn, gwneir pob ymdrech i ddatrys y broblem cyn gynted â phosib. Rydym yn ymdrin â chwynion yn sensitif ac yn gyfrinachol, gan ystyried yr amgylchiadau unigol.

Ceir gwybodaeth am sut i wneud sylw neu gŵyn yn y *Pecyn croeso* sy'n cael ei roi i bobl pan fyddant yn symud i mewn i'r Cartref.

Ceir gwybodaeth hefyd ar yr hysbysfyrdau ym mhob Cartref RMBI.

Gellir cyflwyno cwynion:

- eich hun i unrhyw weithiwr ar unrhyw adeg
- yn ysgrifenedig neu dros y ffôn i Reolwr y Cartref. (Os yw'r sylw neu'r gŵyn yn ymwneud â Rheolwr y Cartref, dylid cysylltu â Thîm Cefnogi Rhanbarthol y Cartref.)
- drwy lenwi *Ffurflen Gwyno* yn y *Llyfr Cwynion*.

Hefyd, mae modd anfon sylwadau a chwynion i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGFC) ar unrhyw adeg.

Rheoli ymddygiad

Gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau RMBI weithiau arddangos ymddygiad a all fod yn anodd ei ddeall. Gall ymddygiad o'r fath ddeillio o brofiad y person neu efallai ei fod yn mynegi materion neu bryderon dyfnach. Mae gan yr RMBI bolisi ar gyfer rheoli ymddygiad anarferol ac nid yw'n cymeradwyo defnyddio unrhyw fath o

atal, oni bai bod hynny wedi'i drafod a'i gytuno â'r person dan sylw ymlaen llaw.

Mae staff wedi'u hyfforddi i ddelio â phobl yn sensitif bob amser er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r person yn cael eu parchu lle bynnag y bo'n bosib, a'u bod yn cadw'r unigolyn ac eraill yn ddiogel.

Telerau ac Amodau

Os byddwch yn penderfynu symud i Lys Tywysog Cymru Albert Edward, byddwch yn cael Cytundeb Preswylwyr yn ogystal â datganiad o delerau ac amodau eich preswiliad gyda RMBI.

Hyderwn y bydd preswylwyr sy'n symud i Gartrefi RMBI yn dewis byw yn ein Cartrefi am weddill eu hoes. Fodd bynnag, os bydd preswilydd yn dewis gadael Cartref yn barhaol, rhaid rhoi rhybudd o bedair wythnos.

Y Corff sy'n Rheoleiddio Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Mae'r Cartref yn destun rheoliadau (Safonau Gofynnol Cenedlaethol) a chaiff ei arolygu'n rheolaidd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Gallwch gael copi o'r adroddiad diweddaraf ar gais.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Rhanbarth De Orllewin Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT

Ffôn: 01267 245160
www.aggcc.org.uk